# Seren Hafren

*Papur Bro Dyffryn Hafren*

Rhifyn 405 EBRILL 2020 60c

Y Seren nesaf: Cyfraniadau: Ebrill 20 Papur Allan: Mai 1af

# POPETH WEDI CAU LAWR
# EFFAITH Y FIRWS YM MHOBMAN

Roeddwn yn meddwl bod hi yn wael mis diwethaf gyda'r llifogydd mawr drwy'r wlad. Wel mae effaith y Firws Corona yn fwy difrifol byth. Mae popeth yn cael ei ohirio. Nifer yn gorfod ynysu eu hunain. Ysgolion wedi cau. Tafarndau a chaffis wedi cau. Rydych yn gwybod hyn i gyd achos does dim byd arall yn cael ei adrodd ar y newyddion nac yn ein papurau ond y Firws.
Rydym yn lwcus yn yr ardaloedd gwledig yma fod pobl yn tynnu at ei gilydd ac yn creu grwpiau o wirfoddolwyr sydd yn barod i siopa neu gwneud unrhyw beth sydd angen dros y rhai sydd wedi ynysu ei hunain.

Penderfynwyd peidio dosbarthu y Seren mis yma, ond fe fydwch yn cael yr hyn sydd gennym drwy e bost ac fe fydd yn ymddangos ar ein Tudalen Facebook. Bydd croeso i chi ddanfon e mlaen i ffrindiau, cymdogion neu unrhyw un fydd a diddordeb i'w ddarllen.

Gobethiwn y bydd pethau yn ôl i normal cyn hir.

Ar ôl dweud hyn i gyd gallwn fod yn ddiolchgar ein bod i gyd fel ardal wedi bod yn dathlu Gŵyl Ddewi gydag awch. Cafwyd nifer fawr o ddathliadau ym Mhenfforddlas, Y Fan, Carno, Caersws. Llanidloes a'r Drenewydd. Mae ychydig o adroddiad ar y tudalenau nesaf. Da iawn chi am drefnu a chynnal y gweithgareddau hyn.

Cyfansoddwyd y gân gyferbyn un noson wythnos diwethaf pan nad oedd unlle i fynd a dim llawer o ddiddordeb ar y teledu. Gallwch ei chlywed ar dudalen Facebook Delma!

Gwnewch y Pethau Bychain bob dydd
Codwch y ffôn, Ewch allan am dro
Siaradwch a'ch teulu, cymdogion a ffrindiau
Cadwch yn glir wrth bobl am hir
Golchwch eich dwylo a golchwch eich dwylo
Gweddiwch ar Dduw am ddiwedd i'r ffliw
Dewch gyda'n gilydd, Trwy aros ar wahan.
Gwnewch Pethau Bychain bob dydd.

## Myfyrdod y Mis

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Parch. Monica O'dea, sydd yn Weinidog yng Ngofalaeth Cylch Llandinam o Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Neges hyfryd ac amserol ar gyfer Y Pasg.

### Y LLYFR HEB EIRIAU


Mae llyfr wedi ei gynllunio ar gyfer plant gyda dim ond pedair tudalen a dim geiriau. Mae'r dudalen gyntaf yn ddu ac yn cynrychioli ein pechodau, sy'n ein gwahanu oddi wrth Dduw. Mae'r ail dudalen yn goch. Mae'n cynrychioli aberth Crist ar y groes drosom ni. Mae'r drydedd dudalen yn wyn ac mae'n cynrychioli'r enaid a lanheir gan waed Crist – ein pechodau wedi eu maddau. Mae'r bedwaredd dudalen yn aur. Mae'n cynrychioli gogoniant y nefoedd.

Mor syml ac eto yn dweud calon y neges Gristnogol. Mae llawer o bobl yn cael trafferth gyda'r cwestiwn pam y mae dioddefaint yn y byd. Pam mae pobl yn wynebu caledi a phoen a thrasiedi? Y pedair tudalen hyn yw ateb Duw i holl boen a dioddefaint y byd hwn.

Fel Gweinidog newydd, yr wyf wedi canfod mai fy nyletswydd fwyaf dwys yw gwasanaethu pobl yn eu marwolaeth yn ogystal â'u bywyd. Wrth wynebu galar a cholled angau y trof drachefn a thrachefn at y gwirioneddau syml hynny o'r llyfr heb eiriau. Rwy 'n ceisio atgoffa y rhai sy'n galaru o wirionedd yr efengyl, fod angau yn cael ei drechu a minnau'n cyfeirio at y gobaith y mae Duw, yng Nghrist wedi ei osod ger ein bron.

Mae'n gyfle i rannu ein cred fod Duw wedi dioddef marwolaeth ar y groes drwy ei Fab ei hun, fel y gallem ni wybod ei fod yn dioddef gyda ni a'i fod wedi gwneud ffordd drwy'r dioddefaint hwnnw i faddeuant a heddwch llawn a chyflawn i dragwyddoldeb gyda Duw.
Gogoniant y dudalen aur fydd ein rhyddhad oddi wrth boen a'n mynediad i mewn i baradwys.
Dywedodd Iesu wrth y lleidr edifeiriol wrth ei ochr, "Yn wir, rwy'n dweud wrthyt, heddiw byddi gyda mi ym mharadwys."
Wrth i ni nesáu at y Pasg, bydded i'n calonnau gael eu llenwi â chariad at y Duw sydd wedi rhoi y bywyd newydd bendigedig hwn yn ei fab, Iesu i ni.

Dywedodd ffrind weddi syml ond dwys heddiw, y byddai pob un ohonom yn gwneud yn dda i geisio ei dilyn. Dywedodd, "Lle bynnag y cawn ddewis, gadewch i'n dewis ni fod yn gariad Amen." Cariad yw Duw




### CLWB EIDDEW

Mae Clwb Eiddew wedi canslo ei cyfarfodydd am y tro. Maent wedi setio i fyny tudalen Facebook – fel Grŵp Darllen Rithwir – ac mae croeso mawr i unrhywun (dysgwyr a siaradwyr) i ymuno a ni yna:
www.facebook.com/groups/clwbeiddew
Julie.pearce5@btinternet.com

Wrth gwrs dan ni ddim yn gallu cyfarfod ar hyn o bryd, felly dan ni'n sgwrsio am lyfrau ar ein tudalen.

Croeso i bawb i ymuno a ni. Y mis yma dan ni'n darllen Y Pumed Drws, gan Sion Hughes, a'r mis nesa byddwn yn darllen "Mynd Fel Bomb" gan Myfanwy Alexander. Ond mae aelodau'r grwp yn darllen llawer o bethau gwahanol hefyd.

Er fod y llyfrgell wedi cau, mae o'n bosib benthyg e-llyfrau, neu audio books, trwy BorrowBox (ar wefan y llyfrgell).

DATGANIAD GAN GYMRODORIAETH

EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS

Firws Corona Newydd (Covid-19)
Yn unol â gorchymyn y Llywodraeth ynglŷn â'r haint hwn penderfynwyd gohirio **EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS RHOSLLANNERCHRUGOG A'R CYLCH 2020**, oedd i fod i gael ei chynnal Ddydd Gwener a Dydd Sadwrn Gorffennaf 17eg a'r 18fed 2020, am flwyddyn.
Y dyddiadau newydd, felly, fydd;
**Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, Gorffennaf 16eg a 17eg 2021**.
Yr un fydd y "Rhestr Testunau" ar gyfer yr Eisteddfod.
O ganlyniad, cynhelir **EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS EDEYRNION A PHENLLYN, Y BALA 2021**, ym mis **Hydref 2022**.

**CERDD Y MIS**

**CLYCHAU'R GOG**

Dyfod pan ddel y gwcw,
Myned pan êl y maent,
Y gwyllt atgofus bersawr
Yr hen lesmeiriol baent;
Cyrraedd, ac yna ffarwelio.
Ffarwelio, -
Och! na pharhaent
R Williams Parry



## DIM GWRTHWYNEBIAD WEDI'I DDERBYN AR Y CYNLLUN I GYFUNO YSGOLION Y DRENEWYDD

Bydd Cabinet y Cyngor Sir yn clywed wythnos nesaf na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynigion i gyfuno dwy ysgol yn Y Drenewydd i greu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg pob oed.

Mae Cyngor Sir Powys yn bwriadu cyfuno ysgol Fabanod Ladywell Green ac Ysgol G.G. Hafren i greu'r ysgol newydd. Cyhoeddwyd y rhybudd statudol gan y cyngor ar gyfer y cynigion y mis diwethaf.

Bydd y cabinet yn ystyried y cynnig. Gan na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig y cynnig fydd iddynt gymeradwy o'r cynnig presennol. Gallai hyn arwain at agor yr ysgol newydd yn 2021 ar safleoedd presennol yr ysgolion.

Bydd yr ysgol newydd yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 4 – 11 oed. Ar hyn o bryd mae yna 94 o ddisgyblion yn yr ysgol fabanod a 145 yn yr ysgol iau.

Dywedodd y Cynghorydd Phyl Davies, Aelod y Cabinet ar faterion Addysg: "Roedd canlyniad yr ymarfer ymgynghori y gwnaethom ei gynnal y llynedd wedi awgrymu mai'r hoff ddewis yw cyfuno Ysgol Fabanod Ladywell Green ac Ysgol Iau G.G. Hafren ac i sefydlu ysgol gynradd newydd ar safleoedd cyfredol y ddwy ysgol.

"Ni chawsom unrhyw wrthwynebiadau i'n cynnig felly fy argymhelliad i'r Cabinet yw eu bod yn cymeradwyo cyfuno'r ddwy ysgol i greu ysgol gynradd newydd.

"Rwy'n credu y bydd y cynnig hwn yn elwa disgyblion a staff addysgu o'r ysgolion hyn."

## TREFEGLWYS

Margaret Jones
Maestrefgomer Cottage
Trefeglwys
01686 430 474

### SEFYDLIAD Y MERCHED

Cyfarfu aelodau o Sefydliad y Merched ar Mawrth 10fed yn y Neuadd Goffa. Croesawyd pawb gan Llywydd y mis Joan Williams yn arbennig aelod newydd Julia Connolly o Llawryglyn.

Trafodwyd y cylchlythyr a chymerwyd enwau ar gyfer cystadlu yn y sioe wanwyn ym mis Mai. Croesawyd y siaradwraig wadd sef Natalie Cummings o Pant. Bu hi yn sôn am ei theulu oedd yn hanu o Rwsia, roedd ei thaid yn diwtor ffidil i'r teulu brenhinol cyn y chwyldro yn 1917.

Bu yn sôn am hynt a helynt y ffidil wrth i'r teulu ddianc o Rwsia i'r wlad yma. Wedyn roedd ei modryb yn chwarae'r ffidil yng ngherddorfa Berlin cyn yr Ail Rhyfel byd a chan ei bod hi yn Iddewes cafodd ei charcharu yng ngwersylloedd Auschwitz a Belsen gan chwarae'r ffidil yn y gerddorfa oedd yn croesawu'r trenau a'r Iddewon i'w tynged yn y gwersylloedd erchyll.

Erbyn hyn mae hi wedi etifeddu'r ffidil, roedd wedi bod ar y rhaglen teledu "Repair Shop" yn dweud stori'r ffidil, ar ôl iddynt drwsio'r ffidil mae wedi ei rhoi i Ymddiriedolaeth Yehudi Menuin sydd yn gofalu bod cerddorion ifanc yn cael offerynnau o safon.

Noson hynod o ddiddorol. Gwnaed y diolchiadau gan Sheila Davis. Ann Brown ag Olwen Evans fu yn gofalu am y lluniaeth

### GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Cathrin a John Roberts, Berriew ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Ganwyd Ruby ar Chwefror 29ain. Wyres cyntaf i John Rowlands, Penffridd a gorwyres i John a Megan Hughes Llys Trannon

### C Ff I

Bu llawer o aelodau'r clwb yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth ddrama y mudiad sirol a gynhaliwyd yn Hafren Y Drenewydd ym mis Chwefror. Chris Gethin fu yn cynhyrchu drama Willy Russel "Our Day Out".

Er na chawsant lwyddiant y tro yma, cawsant lawer o hwyl wrth baratoi ac ymarfer y ddrama. Ar nos Sul Mawrth 1af ail gyflwynwyd y ddrama yn y Neuadd Goffa yn Nhrefeglwys gyda clwb Aberhafesp yn llwyfannu eu drama hwythau hefyd

## PENFFFORDDLAS

Falmai Puw Davies
Craignant, Nantmel LD1 6EW
01597 810 864
Ann Griffiths, Braichyfedw
Penfforddlas. 01686 430 435

### CYDYMDEIMLO

Ar ôl pythefnos yn ysbyty'r Waun Caerdydd, bu farw Michael Evitts, Glasfryn, Y Fan. Ddydd Iau Mawrth 19eg. Bu Michael yn weithgar iawn mewn llawer maes yn Llanidloes a'r neuadd bentref yn Y Fan. Bu ei wraig, Margaret yn dysgu amryw o blantos y Stae yn Nhrefeglwys ac yn gefnogol i Eisteddfodau'r Urdd a'r Eisteddfodau Lleol.

Bu hyn yn sioc fawr i'r teulu ac yntau wedi dechrau gwella.

Cydymdeimlwn a'r teulu cyfan yn y golled hon. Margaret, Julian a'r teulu yng Nghaer, Liam a Richard yn Telford, Hannah a Lee yn Rhaeadr Gwy a Mam Michael sydd dros ei naw deg oed.

Meddyliwn amdanoch i gyd a'r teulu ehangach.

HYSBYSEBWCH
YN Y
SEREN

## AMSER PRYDERUS

Gyda'r sôn am y firws COVID 19, yn taro'r byd ac yn enwedig yn lleol yn y Canolbarth. Meddyliwn am y rhai sydd i gadw'n gaeth i'r tŷ ac am y rhai sy'n methu cwrdd i addoli oherwydd fod y capeli i gyd ar gau, a diolchwn fod Duw gyda ni. Ryden ni angen ein gilydd a gobeithiwn y bydd y ffôn yn para i weithio yn y pentre' fel y gallwn helpu'n gilydd. Ryden ni'n lwcus iawn fod siop yn y pentre'.
Dymunwn yn dda i holl ffermwyr yr ardal a thymor wyna yn ei anterth. Cadwch yn saff.

## CADWCH YN IACH

"Rhoed i'r twyn anadl fwynach, na'r mawrwynt,
Rhoed i'r morwr gilfach,
Hyder hefyd i'r afiach,
A thirion berth i'r oen bach."

Dewi Emrys

## PENBLWYDD HAPUS

Mae amryw y gwyddom amdanynt o'r pentre' yn dathlu eu pen blwyddi yn Ebrill. Dymunwn yn dda iddynt i gyd. Yr un dymuniadau da i eraill na wyddom amdanynt. Dyma nhw:-
David John Jones; Emyr a Graham Pugh. Donald Rees. Dr Nerys Tudor. a Phil Davies

# LLANIDLOES

Bethan Lloyd Owen
Cysgod y Coed
Penyborfa, Llanidloes
01686 412242

## CINIAWAU'R GRAWYS 2020

Tro Heol China oedd hi i arwain y Cinio cyntaf eleni ar Chwefror 28ain.
Cychwynodd y gyfres o'r Ciniawau hyn ar Chwefror yr 28ain a'r thema ganolig ar gyfer y myfyrdodau eleni oedd "O'r Oruwch Ystafell i'r Pasg."

Wedi'r cinio Grawys baratowyd gan nifer o aelodau Eglwys Heol China awd ymlaen â'r Myfyrdod.

Arweinwyd y myfyrdod gan Bethan Lloyd-Owen, cyn cael darlleniadau, sylwadau, cyd-ganu'r emyn "Tydi a wnaeth y wyrth o Grist Fab Duw" a gweddi i derfynnu offrymwyd ar y cyd gan Bryn a Julie Davies.

Diolch i Dwynwen Jervis, Hefin a Margaret Bennett a Gwladys Davies am gymryd rhan ac i bawb hel-podd mewn unrhyw fodd arall sef drwy baratoi'r bwyd a golchi'r llestri neu gyfrannu bwyd a'i baratoi ar gyfer y lluniaeth. Orig hyfryd o gymdeithasu a myfyrio ar un agwedd o gyfnod y Grawys heb os.

## LLWYDDIANT TÎM PÊL-DROED MERCHED IAU LLANIDLOES

Mae Clwb Pêldroed Iau Llanidloes yn Glwb Platinwm!
Nos Wener 31 Ionawr, cynhaliwyd gwobrau chwaraeon Blynyddol Sir Drefaldwyn, ac enillodd clwb pêl-droed Iau Llanid-loes Glwb Iau y Flwyddyn!

Yn 2019, roedd Clwb Pêl-droed Iau Llanidloes yn un tim allan o'r 11 o glybiau yng Nghymru i ennill Achrediad Platinwm. Mae meini prawf Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn llym ac mae'n ofynnol i'r clwb unigol gael llwybr clir a diffiniedig o chwaraeon i oedolion iau a bod yn weithgar yn ei cymuned leol. Yn 2019 mae'r clwb wedi darparu clybiau pêl-droed ar ôl ysgol ac wedi darparu gwersylloedd haf pêl-droed. Mae wedi cynnal digwyddiadau elusennol ac wedi codi arian i ysgolion lleol i brynu offer chwaraeon ac mae hefyd wedi rhoi peli pêl-droed i Elusen Seibiant Plant Pot Mêl.
Mae'r clwb hefyd yn cefnogi ysgol yn Uganda sy'n gofalu am blant sydd wedi eu gadael yn amddifad oherwydd HIV/ AIDS drwy anfon pecynnau pêl-droed iddynt a mae hyn yn digwydd yn flynyddol.

Mae'r clwb yn darparu cyfleoedd gyfartal ar gyfer campau benywaidd a gwrywaidd ac ar gyfer y sector chwaraeon anabledd. Mae tri hyfforddwr pêl-droed anabledd cymwys: un gwryw, un benyw ac un â nam ar ei glyw.

Ar hyn o bryd mae dros 200 o blant yn y clwb sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd ac yn cadw'n brysur. Mae hyn, heb os, yn cyfrannu at iechyd a lles meddyliol ein plant.

Mae'r clwb yn cefnogi plant o bob gallu ac yn eu hannog i gyd i gyflawni eu llawn botensial. Ar hyn o bryd mae bron i 20 o chwaraewyr gwrywaidd a benywaidd yn mynychu'r Academi neu'r Ganolfan Ddatblygu.

Rhaid canmol pawb sydd ynghlwm â'r fenter hon a diolch iddynt am roi o'u hamser i sicrhau ei bod yn llwyddiannus a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

**CYFARFOD GWEDDI BYD EANG**

Cynhaliwyd y Cyfarfod hyn brynhawn Gwener, Mawrth 6ed yn Festri Heol China i Eglwysi Heol China, Llawryglyn, Y Graig ac i unrhyw un arall hoffai droi i mewn. Y thema oedd "Dos, Cod dy wely a cherdda." Cafwyd Gwasanaeth hyfryd yn dilyn y pamffled a luniwyd gan wragedd Zimbabwee.
Arweinwyd y Gwasanaeth gan y Parch Nerys Tudor a diolch i bawb gymerodd ran, trwy drefnu a gosod y byrddau a'r celfi ac a ddarparodd baned ar y terfyn. Anfonir y casgliad wnaethpwyd i apêl Zimbabwe. Gresyn na fyddai mwy wedi bod yn bresennol ond oherwydd sawl ymrwymiad arall a salwch roedd nifer ffyddloniaid ar goll. Yn sicr, derbyniodd pawb oedd yn bresennol fendith o'r gwasanaeth oedd yn cynnig llawer o wirioneddau i fyfyrio arnynt.

DATHLU GŴYL DDEWI

Cafodd Cymdeithas Gymraeg Llanidloes a'r Cylch noson hyfryd yn ei dathliad Gŵyl Dewi eleni. I ddechrau'r noson cafwyd gair o groeso i bawb oedd wedi dod ynghyd gan Bethan Lloyd-Owen yn absenoldeb anorfod y Cadeirydd Mrs Mair O'Gorman. Danfonwyd ein dymuniadau gorau ati ac i'w gŵr oedd newydd gyrraedd adre o'r Ysbyty.

Arweinwyd y Gras gan y Parch Nerys Tudor cyn i bawb fynd ati i fwynhau eu cawl Cennin, eu pwdin a chacennau cri. Roedd y lluniaeth yn flasus iawn a diolch i Sarah Lloyd a'i helpwyr am ei baratoi a'i weini.

Wedi'r bwyd cyflwynwyd Parti Moeldrehaearn gan Bethan Lloyd-Owen gan nodi nad ydynt yn ddiethr o bell ffordd i bawb yn y gynulleidfa a bod cysylltiadau teuluol gan Llinos Rees a Bethan â hwy. Yna cyflwynodd y noson i ddwylo medrus Glandon.
Cafwyd adloniant hyfryd ganddynt yn amrywio o unawdau, deuawdau, triawdau, eitemau cerdd dant ac eitemau Plygain ac arweniwyd y cyfan yn ffraeth, ysgafn a llawn hiwmor gan Glandon. Diolch iddynt am noson gartrefol a rhaid diolch yn fawr iawn i Sioned oedd yn cyfeilio'n fedrus drwy gydol y noson. Teulu dawnus yn sicr a diolch am eu parodrwydd i gadw traddodiad ac etifeddiaeth y teulu o ddiddanu.

Yn ystod y toriad ynghanol y diddanu cynigiodd Margaret y diolchiadau i Barti Moeldrehaearn, i Sarah a'i helpwyr ac i bawb ddaeth â rhodd ar gyfer y raffl. Cyfeiriodd hefyd ein bod yn anfon ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs May Jones, Croeslwyn, sydd yn gwella yn Ysbyty, Y Drenewydd wedi cwymp gartref. Nododd fod Mrs M.Jones wedi anfon eu dymuniadau gorau ar gyfer yr achlysur ac yn gresynu eu bod yn gorfod methu'r dathlu.


Gorffenwyd y noson gyda phawb yn cyd-ganu'r Anthem ac aeth pawb oddi yno wedi cael noson hyfryd o ddiddanwch.



Teulu Moeldrehaearn yn diddanu yn Noson Dathlu Gŵyl Ddewi Cymdeithas Gymraeg Llanidloes

## O'R EGLWYSI

**Mae'r gwasanaethau i gyd wedi ei gohirio ar hyn o bryd.**
**Gweddiwn i Dduw y daw pethau yn ôl yn normal yn o fuan.**





## SWYDDOGION

**Cadeirydd:** John Evans,
Maesmawr, Caersws, SY17 5SB
01686 688 369 neu 07875916304

**Is-Gadeirydd:**
Nia Roberts, Gelli Aur, Sycamore Drive, Y Drenewydd
01686 628234

**Trysorydd:** Haf Leonard,
8 Dolerw Park Drive, Y Drenewydd
SY16 2BA 01686 628197

**Ysgrifennydd:** Nelian Richards,
Ger y Parc, Dolerw Park Drive,
Y Drenewydd SY16 2BA
01686 627410
nelianrichards@gmail.com

**Teipyddes:** Janis Lewis,
14 Poplar Road, Y Drenewydd
SY16 2QG

**Prif Ddosbarthwr:** Eirian Williams,
Eirwynle, Carno 01686 420364

**Trefnydd Hysbysebion:**
Haf Leonard a Delma Thomas
(628 197) (688 538)

**Tanysgrifiadau drwy'r Post:**
Alwena Gentle, Manora, Ffordd Milford, Y Drenewydd SY16 2BD
01686 626044
alwena.gentle@btinternet.com

**Trefnyddion Clwb y Seren:**
Janis Lewis a Delma Thomas
(688 538)

**Golygyddion:**
John Evans
01686 688369
john@midwalesarts.org.uk
Marlis Jones
01686 688679
marlisjones@btinternet.com
Delma Thomas
01686 688538
delmac.thomas@hotmail.com

**Tanysgrifiadau drwy'r post £17.00**

# Y DRENEWYDD

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion o'r Drenewydd. Rydym yn dal i chwilio am berson i fod yng ngofal Colofn y dref

## MERCHED Y WAWR

Nos Fercher Mawrth 11eg roedd y Cilgant wedi ei addurno yn hyfryd ar gyfer dathliad Gŵyl Ddewi Cangen Merched y Wawr, Y Drenewydd.
Croesawyd pawb i'r noson gan Nia Roberts a hi gyflwynodd y gwesteion gwadd sef Meibion Jacob, sef tri gŵr talentog iawn o ardal Penllyn. Dyna wledd o ganu gawsom ganddynt. Cafwyd rhaglen hyfryd o unawdau, deuawdau a thriawdau. Roedd pawb wrth eu boddau yn gwrando ar ganeuon Robat Arwyn, Ryan Davies a Rhys Jones. Cyfeilwyd iddynt gan Gwerfyl Williams o'r Bala.
Diolchodd Nelian iddynt ar ran y gangen cyn mynd ymlaen i dynnu'r raffl.
I orffen y noson mwynhaodd bawb gymdeithasu dros baned a lluniaeth ysgafn oedd wedi ei baratoi gan aelodau'r gangen.
Roedd pawb yn cytuno ei fod wedi bod yn noson fendigedig i ddathlu Gŵyl Ddewi.



O'r chwith: Arfon Williams, Steffan Prys Roberts, Gwerfyl Williams ac Arfon Griffiths

## P3O Y DRENEWYDD

Yn ystafell gyfarfod Plas Dolerw ar fore Mercher y 4ydd o Fawrth, dau o aelodau cylch y Drenewydd ei hun a ddiddanodd gyfarfod misol Prifysgol y Trydydd Oedran, drwy ddangos tafluniau lliw o'u hymweliad tramor diweddaraf, i barthau tair o wledydd De-Ddwyrain Asia - sef Laos, Cambodia a Burma. Y tair gwlad arall yw Fietnam, Thailand a Gorllewin Malaysia; a gyda'i gilydd mae'r chwe gwlad hyn yn cyfansoddi'r penrhyn a gai ei adnabod dros hanner canrif yn ôl fel Indo-Tsieina, a chyn hynny fel y Dwyrain Pell.

Fel y cofiai'r mwyafrif o'r gynulleidfa yn gwbl dda, dyma ranbarthau a ddioddefodd yn chwerw rhwng y 1af Tachwedd 1955 a'r 30ain Ebrill 1975, ac yn enwedig o ganol y chwedegau ymlaen, pan oedd y rhyfel yn ei hanterth rhwng Gogledd a De Fietnam. Ymledodd effeithiau'r ymladd ffyrnig hwnnw gan groesi ffiniau i'r gwledydd cymdogol; gyda grymoedd milwrol Rwsia yn cynorthwyo ardaloedd comiwnyddol y gogledd ac arfau dinistriol America yn

ceisio cyfnerthu trigolion y de. Erbyn hyn, mae natur ac amaethyddiaeth wedi adfer llawer o'r dinistr a wnaed i'r tirwedd yno, er bod nifer helaeth o ffrwydradau tir yn parhau i fod yn guddiedig yn y ddaear mewn amryw fannau.

Cyntefig iawn yw bywyd yn Laos, gyda'r rhan fwyaf o'r boblogaeth, sy'n cynnwys dros bedwar ugain o grwpiau ethnig gwahanol, yn byw mewn tai pren wedi eu hadeiladu'n uchel ar ystudfachau (stilts) yn agos at lannau'r afon Mekong enfawr; yn 2,700 milltir o hyd, hon yw'r afon fwyaf yng nghyfandir Asia. Dim ond 5% o'r ddaear dirgaeëdig (heb arfordir o gwbl), sy'n addas i'w amaethu; ond mae pysgota yn ddiwydiant llawer rhwyddach i wneud bywoliaeth ohono. Tyf llawer o flodau lliwgar i harddu'r bröydd, mae'r bywyd gwyllt yn amrywiol, y golygfeydd yn banoramig a'r marchnadoedd stryd yn fannau prysur a chyfeillgar; ac yn ôl broliant y cyflwynwyr mae'r bwydydd egsotig yno yn amheuthun o flasus.
Wrth ddangos y lluniau a sôn am Cambodia, anorfod oedd cyfeirio at Pol Pot (1925 - 1998), yr arweinydd gwleidyddol ffiaidd a didostur, a arweiniasai gyfundrefn dotalitaraidd y Kmer Rouge rhwng 1975 a 1979, gan orfodi caledi gormesol difrifol ar breswylwyr Cambodia.

Ei lywodraeth gomiwnyddol radicalaidd ef fu'n gyfrifol am wacáu dinasoedd y wlad o'u miliynau o drigolion, ac am lofruddio ac ymlid miliynau eraill o bobl ddiniwed. Gadawodd ar ei ôl hanes erchyll am greulondeb a thlodi bwystfilaidd. Fodd bynnag, dangosodd Mike a Paula Davies harddwch y wlad a hapusrwydd y bobl sy'n byw yno erbyn heddiw. Y rhyfeddod mwyaf iddynt ill dau oedd crwydro o amgylch safle 402 erw yr enwog Angkor Wat, sef yr heneb grefyddol fwyaf ei maint yn y byd. Adeiladwyd y prif adeilad yno'n wreiddiol fel teml Hindŵaidd, ond fe'i trawsffurfiwyd yn raddol tua diwedd y ddeuddegfed ganrif yn deml Fwdhaidd; o'i hamgylch mae delwau deniadol a cherfiadau cerrig swmpus eithriadol.

Yng ngwlad Burma (neu Myanmar fel y'i gelwir ers 1989) mae dros gant o grwpiau ethnig yn byw'n gytûn, er gwaethaf eu holl ieithoedd a'u diwylliannau amrywiol. Rhaid oedd ymweld â Mandalay, a enwogwyd gan y bardd Rudyard Kippling a'r cantor Frank Sinatra; y ddinas hon ar lannau'r afon Irrawaddy ydyw ail ddinas fwyaf y rhanbarth hwn. Rhwng 1885 a 1948 arferai'r ddinas hon, lle triga un miliwn a chwarter o bobl heddiw, fod yn drefedigaeth Brydeinig.
Ym Myanmar y mae teml hynaf y byd, sef y Pagoda Shwedagon, un o safleoedd mwyaf cysegredig Bwdhaeth. Mae corff allanol y deml, wedi ei orchuddio o'i sylfaen i'w frig, sydd 326 troedfedd o uchder, gydag eurddalen sy'n pwyso 27 tunnell fetrig, ynghyd â miloedd o ddiemwntau a gemau drudfawr a lliwgar.

Golygfa cwbl gyfareddol yng ngoleuni machlud yr haul. Oddi fewn i'r adeilad mae creirfa sy'n cynnwys darnau o gyrff pedwar Bwda hanesyddol.

Mae'n amlwg i Mike a Paula Davies eu mwynhau eu hunain yn ddirfawr, a thrwy ansawdd eu tafluniau a brwdfrydedd eu hesboniadau a'u disgrifiadau difyr am Dde-Ddwyrain Asia, treiddiodd yr un mwynhad hefyd i'r gynulleidfa, un ac oll.

Oherwydd amgylchiadau pryderus a chaethiwol pandemig y firws Corona presennol, bwriedir peidio â chynnal yr un cyfarfod arall o'r P3O yn Y Drenewydd o leiaf tan y bore Mercher cyntaf o fis Medi 2020, neu efallai wedi hynny hyd yn oed, os bydd raid.

# EISTEDDFOD DDAWNSIO YR URDD

Er fod Eisteddfodau'r Urdd i gyd wedi ei gohirio bellach, fe gafodd plant Cylch Bro Hafren gyfle i gystadlu yn Eisteddfod Ddawnsio y Cylch cyn i'r firws yma gael gafael yn ein bywydau. Mae ond yn ddigon teg felly i roi eu lluniau yn y papur gan fod eu perfformiadau wedi bod mor wych a phawb wedi mwynhau y noson. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth ennill ac hefyd i bawb wnaeth berfformio. Dyma rai o'u lluniau.





Dwy chwaer o
Ysgol Gynradd Llanidloes



Grŵp Dawnsio Disgo Ysgol Penygloddfa



Dawns Werin Bl 4 ac iau: Parti Jac
Ysgol Dyffryn Trannon



Bois y Dyffryn, Ysgol Dyffryn Trannon yn y
Ddawns Aml Gyfrwng



Dawns Werin Bl 6 ac iau:
Parti Rhys
Ysgol Dyffryn Trannon

# Y DRENEWYDD
(Parhad)

## GEFEILLIO

Dydd Gwener Chwefror 21ain cyrhaeddodd 29 o Ffrancwyr o Les Herbiers Y Drenewydd ar gyfer penwythnos Rygbi y chwe gwlad. Croesawyd nhw ym Maes Awyr Maenceinion gan aelodau o'r pwyllgor oedd wedi trefnu bws i'w cludo nôl a mlaen o'r dre. Trefnwyd llety i bawb, llawer yn aros gyda hen ffrindiau ac eraill yn gwneud ffrindiau o'r newydd.

Dydd Sadwrn aeth llond bws o gefnogwyr Cymru a Ffrainc i Gaerdydd i wylio'r gêm. Roedd y pwyllgor yn ddiolchgar iawn i Dai Davies o Glwb Rygbi Y Drenewydd am sicrhau y tocynnau. Roedd y Ffrancwyr wedi gwirioni gyda'r stadiwm a'r awyrgylch yno ac wrth gwrs roeddynt wrth eu boddau gyda'r canlyniad.

Gadawsant yn gynnar fore Sul ar gyfer eu siwrne adre. Roedd yn benwythnos byr iawn ond yn ôl nifer ohonynt roedd wedi bod yn benwythnos bythgofiadwy.

Nawr edrychwn ymlaen i Fis Ebrill pan fydd dau lond bws yn mynd i Les Herbiers ar gyfer penwythnos gerddorol. Mae Cerddorion Ifanc Maldwyn yn cydweithio gyda Ysgol Gerdd Les Herbiers ar gyfer cyngerdd fydd yn cael ei gynnal yno dros y penwythnos, fel y cawsom yma ddwy flynedd yn ôl. Mae dal rai seddi ar ôl os oes gennych ddiddordeb yn y daith.

Cysylltwch a:
newtowntwinning@gmail.com
Gwefan am fwy o fanylion: www.newtowntwinning.co.uk








# CARNO

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion i ni o Garno

## MERCHED Y WAWR

## CAWL A CHÂN

Nos Wener, 28ain o Chwefror, fe drefnwyd noson o Gawl a Chân gan aelodau'r gangen. Braf oedd cael croesawu aelodau o gangen Glantwymyn i ymuno yn y dathliadau. Croesawyd pawb ar ddechrau'r noson gan Eleri Williams, cadeirydd y gangen a hithau a draddododd y fendith.

Paratowyd y cawl a'r pwdin gan Bwyd Bethan - swper blasus dros ben. Wedi'r gwledda, daeth amser yr adloniant gan Hen Fegin. Fe'u cyflwynwyd gan Glenys Richards ac fe gafwyd dwy sesiwn o ganu a cherddoriaeth offerynnol ganddynt gyda raffl yn cael ei dynnu yn ystod y toriad. Wedi noson o fwynhad pur, fe ddiolchwyd i bawb gan Liz Jones cyn gyd ganu yr Anthem Genedlaethol.



Hen Fegin ar y llwyfan yn perfformio

Cyfarfu'r aelodau nos Lun, Mawrth 9fed gydag Eleri Williams yn y gadair. Wedi trafod materion y gangen, fe gyflwynwyd Alwyn Hughes, Llangadfan, y siaradwr gwadd.

Cawsom sgwrs ganddo yn sôn am dri pherson sydd wedi cael dylanwad arno - Maurice Evans, Ty'n Rhos, John Ellis a'i chwaer Morfudd Thomas, Moeldrehaearn. Dywed Alwyn ei fod wedi dysgu llawer gan y tri chymeriad a oedd yn dyst o'n gorffennol a'r hen ffordd Gymreig o fyw. 'Roedd Maurice Evans wedi ysgrifennu ei hunangofiant ac fe ddarllenwyd rhannau ohono. Yn y llyfr "Cymeriadau Maldwyn", ceir hanes John Ellis a Morfudd Moeldrehaearn. Cafwyd ambell i stori am John Ellis ac adroddwyd rhai o'i hen benillion - 'roedd yn fardd gwlad penigamp, ac wrth ei fodd yn sgrifennu penillion am droeon trwstan yn y fro. Diolchwyd i Alwyn gan Eleri a gofalwyd am y baned gan Joan a Margaret. Eluned a Liz oedd y ddwy lwcus i ennill gwobrau'r raffl.

## CLWB BRO MALDWYN

Cafwyd prynhawn hyfryd ar Fawrth 1af yn y Ganolfan Gymdeithasol gyda'r aelodau a gwesteion yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda the Cymreig. Croesawodd y cadeirydd, Pat Smith, bawb yno ac yna cyflwynodd Gareth Davies, Erw Las i ddiddanu. 'Roedd pawb wedi mwynhau Gareth yn canu ac yna yn mwynhau'r te blasus oedd wedi ei baratoi gan rhai o'r aelodau.

(Lluniau ar Dudalen 16)

## CWMNI DRAMA DINAS MAWDDWY

Nos Sadwrn, Mawrth 7fed, daeth Cwmni Drama Dinas Mawddwy i'n diddanu yn y Ganolfan Gymdeithasol. Croesawyd aelodau'r Cwmni a'r gynulleidfa gan Delyth Thomas ac fe berfformiwyd dwy ddrama fer -
'Bran i Fran' gan Emrys Owen gyda Hedd Pugh yn cynhyrchu, a 'Ffesant i Swper' gan Ifan Gruffydd gyda Berwyn Harding yn cynhyrchu.
Cafwyd noson hwyliog iawn a'r gynulleidfa yn ymateb yn dda.

Braf iawn oedd gweld cynifer o blant yn mwynhau hefyd. Fe dynnwyd y raffl yn ystod y toriad gyda Clem Richards, Heulwen Jones, Aled Thomas, Nansi a Dafydd Lloyd yn ennill y gwobrau.

Diolchwyd i'r cwmni, aelodau pwyllgor Y Ganolfan ac i'r gynulleidfa gan Joan Phillips. 'Roedd elw'r noson yn mynd tuag at Y Ganolfan.



Cast y ddrama "Ffesant i Swper"

## MERCHED Y WAWR

Mae aelodau Merched y Wawr wedi bod yn casglu nwyddau i fynd i siop Tŷ Gobaith oherwydd bod angen llawer o arian i redeg y lle bob dydd. Gofynnodd y Llywydd Cenedlaethol i ni fel aelodau i wneud rhywbeth eleni er budd plant a phobl ifanc.

## LLWYDDIANT SEICLO

Mae dau fachgen o Garno wedi cael llwyddiant wrth seiclo.



Alffi ac Elgan

Mae Alffi Francis 10 oed (chwith) ac Elgan Thomas, 6 oed yn aelodau o Glwb Seiclo'r Drenewydd

Mewn seremoni gwobrwyo'r clwb derbyniodd Alffi troffi Y beiciwr gyda'r cynnydd fwyaf o holl aelodau'r clwb. Dywedwyd amdano 'Daw Alffi a gwên a'r agwedd gywir i'r sesiynau hyfforddi bob tro. Mae o wedi gweithio yn galed iawn yn ystod y tymor yn dysgu sgiliau newydd ac yn perffeithio rhai blaenorol.

Cynrychiolodd y clwb yn dda iawn wrth rasio gan ddangos ei ddawn a'i sgiliau beicio.

Derbyniodd Elgan droffi 'Dewis yr hyfforddwr'

# CARNO
## (Parhad)

Mae Elgan yn un o aelodau ieuengaf y clwb ac mae wrth ei fodd yn reidio'i feic, ac mae'r hyfforddwyr wrth eu boddau yn ei wylio. Mae o'n frwdfrydig ac yn gwenu trwy'r sesiwn hyfforddi dim ots beth yw'r tywydd ac yn pedlo mor gyflym ac y gallai trwy'r amser. Mae yntau hefyd wedi rasio yn erbyn rhai o bencampwyr Cymru – gyda gwên ar ei wyneb wrth gwrs!

**CYLCH MEITHRIN**

Mae'r tymor yma wedi hedfan. Thema'r Cylch yw 'Ein Cymuned' Mae'r plant wedi bod yn edrych ar wahanol adeiladau yn y pentre' yn cynnwys eu cartrefi. Spar Carno, lle buont yn siopa am gynnyrch ar gyfer amser snac a thalu efo arian mân. Byddant yn ymweld â'r eglwys ac wrth gwrs maent yn gyfarwydd efo'r Ysgol drws nesaf.

**DATHLIADAU**

Dathlwyd y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd trwy flasu bwydydd a chawsant her o ddefnyddio 'chopsticks' i godi sbageti i ymarfer sgiliau man eu dwylo.

Mae Bingo blynyddol y Cylch, oedd i fod ar Nos Wener, Ebrill 3ydd.am 7.00y.h yn yr Aleppo wedi ei ganslo.



Daeth Gŵyl Dewi a phawb wedi gwisgo coch ac wedi dod a chennin, cennin Pedr, sgarff rygbi Cymru a chacennau cri i wneud arddangosfa. Mwynhaodd y plant y cacennau cri i snac .



Dyma nhw "Chwaraewyr Rygbi y dyfodol!"

I ddathlu Diwrnod y Llyfr dewisodd Janet, y llyfrgell deithiol, llyfr lliwgar am ddinosoriaid i ddarllen stori i'r plant yn y fan llyfrgell. Roeddynt wedi mwynhau ac wrth eu boddau yn edrych ar y lluniau lliwgar.




Stori gyffrous iawn!

## CLWB FFERMWYR IFANC LLANBRYNMAIR A CARNO

Cyn y Nadolig bu'r aelodau yn canu carolau o gwmpas y pentre' i gasglu arian at y clwb  a'r Ambiwlans Awyr. Casglwyd £250 i'w rhannu rhyngddynt. Cyflwynwyd siec o £125 i'r Ambiwlans Awyr  yn y Trallwng.




Aelodau'r clwb gyda criw yr Ambiwlans Awyr

TRANNON
TREE SERVICES

- TRWYDDED NPTC
- Yswiriant Llawn Cyfrifoldeb Cyhoeddus a Phroffesiynol
- Difrod Stormydd
- Cynnal a Chadw Llwybrau
- Gwasanaeth Malu Coed a thrafodwr ar lôg
- Pob math o ffensio A Chynllunio Tirwedd

Gwnawn bob math o waith coed yn broffesiynol am bris cystadleuol

MORRIS JONES
24 Hour Service
Tel/Fax: 01686 430516
Mobile: 07833 345522
morris.jones@farming.co.uk

Rees Astley

Broceriaid Yswiriant a Chynghorwyr Ariannol Annibynnol

**Am eich holl anghenion ariannol, o yswiriant busnes i fuddsoddiadau.**

Tŷ Mostyn,
4 Stryd y Farchnad,
Y Drenewydd,
Powys SY16 2PQ

Ffôn – 01686 626616
Ffacs – 01686 628457
e-bost - newtown@reesastley.co.uk

www.reesastley.co.uk

Swyddfeydd hefyd yn Aberystwyth a'r Amwythig

BIBA

# CARNO

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion i ni o Garno

## CLWB BRO MALDWYN YN DATHLU GŴYL DDEWI








# BETTWS

Llongyfarchiadau i Lucy Jones, Y Glomen, Bettws sydd wedi ennill y fedal arian yng Ngala Nofio'r Urdd yng Nghaerdydd yn ddiweddar.
Da iawn ti Lucy!



Lucy Jones gyda'i medal arian



**CAERSWS**
Delma Thomas
Preseli, Stryd y Capel
Caersws
SY17 5ED
01686 688 538
delmac.thomas@hotmail.com



O'r chwith: Robin Lyn, Glandon Lewis, Dewi Powell gyda Delyth Hopcyn Evans tu flaen

**CAWL A CHÂN**

Nos Sul Mawrth 1af, cynhaliwyd Noson Cawl a Chân yn neuadd y Pentref Caersws. Cymdeithas Gymreig Caersws oedd wedi trefnu y noson ac fe gafwyd noson arbennig iawn.
Paratowyd cawl a threiffl bendigedig gan Sarah Jarman a'i chriw. Roedd aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi paratoi Bara Brith a Phice ar y Maen.
Y diddanwyr a wahoddwyd eleni oedd Dewi Evans a Barry Powell, ond yn anffodus rhyw ddiwrnod cyn y noson collodd Dewi Lloyd ei lais, ond bu yn ddigon caredig i drefnu fod ei frawd Robin Lyn yn dod yn ei le.
Cyflwynwyd hwy i'r gynulleidfa gan Ceris Jehu.

Delyth Hopcyn Evans oedd ei cyfeilydd ac fe gafwyd unawdau a deuawdau swynol a phroffesiynol iawn ganddynt.
Glandon Lewis oedd y cyflwynydd ac fe gafwyd ychydig o jocs doniol iawn ganddo yntau.
Diolchwyd i bawb gan Delma a chyhoeddodd y bydd noson arall debyg yn yr un man a'r lle, ar Nos Lun, Mawrth 1af 2021.

Noson wych a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn.



**CLWB YR HENOED**

Bu aelodau Clwb yr Henoed yn cyfarfod yn Lolfa Clwb y Pentref, Pnawn Iau Chwefror 27ain, Dougie Bancroft o Ambiwlans Awyr Cymru ddaeth i siarad gyda'r aelodau, a difyr iawn oedd ei sgwrs, ac agoriad llygaid hefyd. Mae yn anghygoel y gwaith mae'r criw ambiwlans yma yn eu wneud. Cafodd pawb wahoddiad hefyd i ymweld a'r salfe ger Y Trallwng.
Yn ystod y prynhawn cyflwynodd Delma siec o £50 i'r Ambiwlans Awyr arian a godwyd yn Bore Coffi Capel y Presbyteraid yr wythnos cynt.
Paratowyd lluniaeth gan Bronwen Williams, Lesley Scrimshaw a Diana Jones.



Delma yn cyflwyno siec i Dougie Bancroft i Ambiwlans Awyr Cymru. Hefyd yn y llun Anne Jones, Eiddwen Thomas, Carol Jones, Ros Jones, Beryl Calvin-Thomas ac Ann Ingham





Gobeithio eich bod wedi mwynhau y fersiwn newydd hwn o’r Seren yn ddigidol yn unig.

Os ydych chi eisiau mi allwn wneud un arall ar gyfer Mis Mai. Yr unig beth ydy fydd DIM wedi cael ei drefnu a’i gynnal yn ein cymunedau OND fe allwn roi at ei gilydd erthyglau, storiau, posau, barddoniaeth, lluniau, jôc fach neu unrhyw beth o’ch dewis chi. Dyma eich cyfle ewch ati danfonwch nhw ataf i delmac.thomas@hotmail.com

Does dim eisiau aros tan ddiwedd y mis, danfonwch nhw nawr heddiw neu fory ac fydd hyn yn rhoi cyfle i mi eu rhoi i gyd at ei gilydd i chi fedru ei dderbyn dechrau Mis Mai.
Diolch yn fawr i chi.

## Edrychwch ar ôl eich hunain a Golchwch eich dwylo!

Rydym yn derbyn datganiadau yn aml o’r Cyngor Sir am y Firws Corona, ond does dim llawer o synnwyr yn eu cynnwys gan fod pethau yn newid o ddydd i ddydd.

Gol.

Nid yw Golygyddion na Phwyllgor Seren Hafren o anghenraid yn cytuno gydag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.



